

CYFLWYNIAD

Mae gwsberis yn gnwd traddodiadol, ac maent wedi dod yn boblogaidd unwaith eto yn ddiweddar. Mae'r aeron yn barod ym mis Gorffennaf ac yn para'n dda ar y llwyn. Golyga hyn y gall y tymor bara am fis neu ragor. Gellir eu hel fel un cynhaeaf neu eu hel fesul dipyn i ddal marchnad gyntaf y tymor. Mae gwsberis yn adnabyddus i'r cyhoedd, ac yn amlwrpas yn y gegin.

SAFLE

Gall planhigfa bara am 10 mlynedd neu ragor, felly mae'r paratoi a'r cynllunio yn hanfodol. Bydd y rhan fwyaf o bridd sy'n draenio'n dda yn addas, ond gall clai trwm fod yn anodd. Gyda phridd tywodlyd ysgafn iawn, byddai'n fanteisiol cael system ddyfrhau. Dylid clirio unrhyw chwyn parhaol, yn arbennig ysgall a marchwellt (*couch grass*) cyn plannu. Mae cynnwys gwraith wedi pydru'n dda yn fantais wrth baratoi'r pridd. Yn hytrach na chwynladdwyr, gall tyfwyr organig (ac eraill) osod gorchudd llawr pilen athraidd (*permeable membrane*) (e.e. Mypex) dros welyau a ffurfiwyd yn barod. Argymhellir gwelyau uchel (*raised bed*) gan eu bod yn gwella'r draeniad. Gellir cael rhesi neu welyau uchel drwy aredig cwysi gyda'i gilydd neu ddefnyddio gryniwr (*ridger*) tatws. Wrth blannu unrhyw gnydau newydd, mae bob amser yn ddoeth dadansoddi'r pridd. Ar gyfer gwsberis, dewch â lefelau Ffosffad, Potash a Magnesiwm i fyny at Indecs 2 a dechreuwch gyda pH dim llai na 6.5.

TOCIO

Gan ddiybnu ar eich stoc, efallai y bydd yn werth tocio'r llwyni i siâp cyn plannu. Mae hyn yn cynnwys tynnu blagur sy'n isel i lawr ac unrhyw ganghennau sy'n amlwg yn wael, yn wan, ac wedi eu difrodi. Efallai y bydd hyn yn mynd â llawer allan o'r llwyn, ond mae'n werth ei wneud cyn plannu yn hytrach na gadael i'r llwyni ddatblygu am flyyddyn ac wedyn ceisio tocio.

Tociwch eich gwsberis a blannwyd ers amser o pan fyddant yn colli eu dail hyd at fis Mawrth. Mae angen ailagor canol llwyni hŷn i alluogi cael mynediad at y ffrwythau ar y canghennau pigog. Gorau po gyntaf y tynnir y canghennau canol yma. Meddyliwch am wydr gwin a cheisiwch gopio'r siâp hwn yn y llwyn.

Mae gwsberis yn eithaf gwahanol i gyrens duon yn y ffordd maent yn cynhyrchu ffrwythau ar goed hŷn. Nid oes arnynt angen y tocio adnewyddu dramatig felly. Yn gonfensiynol, tyfir gwsberis ar goes neu foncyff bychan tua 150-200mm o hyd. Mae'n werth sefydlu coes mewn planhigfeydd newydd gan eu bod yn haws eu rheoli, a dylai stoc dda fod â dechreuadau'r goes hon pan gânt eu prynu. Cadwch y goes drwy dynnu unrhyw sugnwyr (*suckers*) sy'n ymddangos wrth y gwaelod.

I leihau'r difrod i'r planhigyn neu'r cnwd, tynnwch unrhyw goed a fydd wrth ymyl y llawr yn ystod y tymor tyfu. Gellir torri deunydd sy'n rhy hir ac ystywyth i'w hannog i dyfu am i fyny. Mae gan lawer o fathau o gwsberis ddrain, felly mae pâr o fenig yn hanfodol wrth docio.

Yn achlysurol, tyfir gwsberis ar ddelltwaith (*trellises*). Yn yr achos yma, caiff tyfiant y planhigyn ei glymu wrth ffrâm a wnaed ymlaen llaw.

PLANNU

Yr amser delfrydol i blannu yw Tachwedd, oherwydd fe all y llwyni wreiddio tra bo'r blagur ynghwsg. Fodd bynnag, ceir canlyniadau da yn aml wrth eu plannu o ddechrau'r gwanwyn hyd at fis Mawrth.

Plannwch llwyni gyda 4m rhwng rhesi. Os ydych am gynnal y safle gyda tractor cul neu â llaw, yna gellir plannu'r llwyni'n agosach at ei gilydd. Dylai llwyni ledaenu 1.3m ar draws yn y pen draw, felly argymhellir defnyddio hyn fel y bwch i lawr y rhes. Mae hyn yn gweithio allan tua 1,930 o llwyni fesul hectar.

Wrth blannu'r llwyni gwsberis, gwnewch yn siŵr bod y gwreiddiau wedi eu gorchuddio, ond nid oes raid i chi eu plannu'n ddwfn, oherwydd bydd hyn yn gwella'r goes.

Gellir prynu llwyni blwydd neu ddyflwydd gan y tyfwr neu mewn ffrâm prifant (*propagator*). Mae llwyn dyflwydd yn rhoi gwell cychwyn cyhyd â bod y ffrâm prifant wedi gwneud peth o'r gwaith ffurfio i chi.

Ar ôl plannu, bydd angen triniaeth chwynladdwr neu daenu gwellt er mwyn atal chwyn rhag tyfu.

MATHAU

- **Invicta** – mae hwn yn hawdd iawn ei dyfu gan ei fod yn gallu gwrthsefyll llwydni powdrog ac mae'n tyfu'n gryf – fodd bynnag, ni fydd yn goddef pridd gwlyb.
- **Careless** – mae hwn yn fath arall cyffredin a gellir ei gadw heb lwydni.
- **Pax** yw'r math croen coch gorau
- Mae **Rokula** yn tueddu i fod yn rhy agos i'r ddaear neu'n wylofus (*weeping*) i wneud llwyn da.
- Gall **Leveller** a **Winhams Industry** fod yn dueddol o gael llwydni.

Mae mathau eraill ar gael a gellir eu treialu i weld sut y byddent yn addas ar gyfer eich fferm.

CAEL HYD I STOC

Mae stoc dda, sydd wedi cael ei hinsoddi yng Nghymru, ar gael gan:

- *Welsh Fruit Stocks*, ewch i www.welshfruitstocks.co.uk. Maent yn cynnig amrywiaeth eang o ffrwythau, yn cynnwys organig.
- *Hargreaves Plants*, www.hargreavesplants.com
- R W Walpole Cyf www.rwwalpole.co.uk – catalog ar-lein.
- Winsors (e-bost: winsorfarms@hotmail.co.uk), *propagator* arbenigol

Bydd y rhan fwyaf o *propagators* yn gwerthu allan ar ddechrau tymor, felly argymhellir archebu ymlaen llaw.

MARCHNADOEDD

Gwerthir gwsberis yn gyffredin yn ffres mewn bocsy'n pwyso 225g neu 450g. Maent yn gnwd da ar gyfer eu hel eich hun (*Pick Your Own*) oherwydd maent yn barod i'w hel o fis Gorffennaf. Wrth brisio gwsberis, ystyriwch y gall rhai cwsmeriaid sy'n eu hel eu hunain hel hyd at 2kg mewn basged fawr. Gellir cymysgu gwsberis gyda ffrwythau meddal eraill hefyd i'w gwerthu mewn marchnadoedd ffermwyr a siopau fferm.

Gall oes sillf gwsberis, ar ôl eu hoeri i 2°C, fod hyd at bythefnos.